# papur priordy

**Dysg imi garu Cymru,**
**ei thir a'i bröydd mwyn,**
**rho help im fod yn ffyddlon**
**bob amser er ei mwyn;**
**O dysg i mi drysori**
**ei hiaith a'i llên a'i chân**
**fel na bo dim yn llygru**
**yr etifeddiaeth lân.**

**W Rhys Nicholas (1914-96)**
**Caneuon Ffydd 832**

**Dewiswyd gan Glenys Thomas**

*Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn*

**PAPUR IONAWR 2021**
**Rhifyn 340**




# Holi'n Gweinidog
# Ar Ddechrau Blwyddyn Newydd




**Mae blwyddyn newydd yn ddechrau newydd, a phawb yn gobeithio am flwyddyn wych a hapus. Beth yw'ch gobeithion chi ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod?**

*Rwy'n siŵr fod pawb ohonom yn rhannu'r un gobeithion ar gyfer y flwyddyn newydd, sef gweld goleuni ar ddiwedd yr hyn sydd wedi bod yn dwnel hir a thywyll dros y 9 mis diwethaf. Iechyd da a diogelwch i bawb. Synnwyr cyffredin ac ysbryd anhunanol i rai. Dyfalbarhad a nerth i nifer. Doethineb i arweinwyr. Chwarae teg i'n pobl ifanc. Gras ac amynedd i bawb.*

**Fydd bywyd eglwysig ddim yr un fath wedi'r pandemig, medden nhw. Ydych chi'n cytuno?**

*Ydw. Rhoddodd y 9 mis diwethaf gyfle i ni ddarganfod ffyrdd newydd o gyflwyno newyddion da'r Efengyl ac yn sgil hynny rydym oll wedi dysgu llawer o sgiliau newydd ac wedi magu hyder mewn cyfryngau a oedd, o bosib, yn ddiarth iawn i lawer. Rwy'n hynod o browd o'r ffordd y mae'r aelodau wedi cofleidio'r cyfryngau newydd. Rhaid wrth y traddodiadol a'r newydd – wyneb yn wyneb a digidol – edrychwn ymlaen at adeiladu ar brofiad y 9 mis diwethaf er mwyn datblygu'r eglwys ymhellach i'r dyfodol.*

**Tybed a welwn ni Beti-Wyn 'gwahanol' wedi'r pandemig?!**

*Cwestiwn da! Un peth sy'n sicr, rhoddodd y Covid y brêcs ar nifer ohonom, a fi yn eu plith! Trueni ei bod wedi cymryd pandemig i wneud hynny. Rwy wedi sylweddoli y medraf gyflawni'r un faint o waith wrth fy nesg, diolch i dechnoleg fodern, ac nad oes angen gyrru o un pen o'r wlad i'r llall er mwyn mynychu cyfarfodydd. Golyga hyn lai o amser ar yr hewl, llai o straen o orfod cyrraedd rhywle mewn pryd, ac wrth gwrs, llai o danwydd a hynny felly'n well i'r amgylchedd. O ganlyniad, rwy wedi cael mwy o amser i arbrofi gyda ffurf newydd o weinidogaethu. Rwy'n credu bod y cyfnod hwn wedi ein newid ni i gyd mewn rhyw ffordd neu'i gilydd ac wedi'n hatgoffa ni am yr hyn sydd wir yn bwysig mewn bywyd.*

**Unwaith y daw 'haul ar fryn' a'n 'traed yn gwbl rydd' rywbryd yn 2021, beth yw'r un peth y byddwch chi'n edrych ymlaen ato fwyaf?**

*Brêc yn y garafan! Ond yn bwysicach na dim, cwrdd â theulu a ffrindiau yn ddiogel. Medru cymdeithasu unwaith eto fel eglwysi. Un peth bach arall, rwy'n methu aros i roi cwtsh i blant yr Ysgol Sul, yn enwedig yr holl fabis newydd sydd wedi eu geni yn y ystod y cyfnod clo. Mae'n ofnadwy methu â'u cofleidio. Ofnaf y bydd 'na restr aros ar gyfer bedyddiadau yn 2021!*



**Un her fach i orffen, Beti-Wyn. Cafodd Ernest Hemingway ei herio un tro i ysgrifennu stori mewn chwe gair. Tybed allwch chi roi neges o obaith i ni mewn chwe gair, os gwelwch yn dda?!**

*Mae'r goleuni yn drech na'r tywyllwch.*

## Gweddi ar gyfer y Flwyddyn Newydd

### (Gweddi Gynulleidfaol)

**Gweddïwn**

**Nefol Dad, ar ddechrau'r flwyddyn newydd hon, er na wyddom beth sydd o'n blaenau, cerddwn i mewn i'r flwyddyn gyda hyder, gan wybod dy fod yn mynd o'n blaenau. Gweddïwn am lygaid ffydd i weld dy gynlluniau ar ein cyfer a gras i ddilyn dy arweiniad ar hyd llwybr y flwyddyn.**
**Dad Nefol, dyro inni ffydd i gerdded gyda thi a gras i'th ganlyn bob dydd - lle bynnag y byddi di'n ein harwain.**

**Edrychwn yn ôl ar y flwyddyn a aeth heibio - diolchwn iti am dy bresenoldeb a'th ras sydd wedi ein cynnal a'n cadw. Ti yn unig a ŵyr beth a ddaw i'n rhan yn ystod y misoedd sydd i ddod ac ymddiriedwn yn dy ofal a'th drugaredd.**
**Dad Nefol, dyro inni'r nerth i wynebu pob her, a'r dewrder i wneud y mwyaf o bob cyfle.**

**Gweddïwn am dy eglwys, boed i'r flwyddyn newydd hon fod yn flwyddyn o fendith mawr. Unwn â'n brodyr a'n chwiorydd ar draws Cymru i weddïo dros dy waith yn ein gwlad – ym mhob eglwys a chymuned.**
**Dad Nefol, bendithia dy waith yn ein gwlad a dyro i bob un ohonom nerth i wneud ein rhan.**

**Amen**

***Gweddi o wefan Undeb Bedyddwyr Cymru***

## DARLLENIADAU

| Mis Ionawr | Darlleniad |
| --- | --- |
| Wythnos 1 | Salm 147: 12-20 |
| Wythnos 2 | Salm 29 |
| Wythnos 3 | Salm 40: 1-11 |
| Wythnos 4 | Salm 27: 1, 4-9 |
| Wythnos 5 | Salm 15 |

## DIOLCH YN FAWR

Diolch yn fawr iawn am yr hamper bwyd gwych a dderbyniais oddi wrth yr Ofalaeth adeg y Nadolig. Roedd yn syrpreis hyfryd ac yn llawn o nwyddau bendigedig. Rydym wedi mwynhau'r cyfan yn fawr dros yr Ŵyl.

Diolch hefyd i'r corachod bach a fu'n creu'r ffilm 'Diolch' yn ddiarwybod i mi ar dudalen Facebook y capel! Dyna oedd sypreis hyfryd arall.

Cofiwch mai tîm ydym yn yr Ofalaeth hon, a phawb wedi gweithio'n eithriadol o galed dros y 9 mis diwethaf er mwyn cadw pawb ynghyd a chadw popeth i fynd. Dim ond rhoi'r 'ordors' ydw i!







**Blwyddyn Newydd Dda**

**Beti-Wyn**

## TEULU'R TŶ CAPEL




Cyflwynwyd hamper o fwyd i Ahmed a'r teulu yn y Tŷ Capel. Maent yn cadw'n iawn ac Ahmed wedi ailgychwyn gweithio yn Oxfam tan y cyfnod clo diweddar. Danfonwn eich cofion cynhesaf atynt gan ddymuno blwyddyn newydd ddiogel a iach Iddynt.

# CÔR RHITHIOL YR YSGOL SUL



**Elen Marks...**



## OEDFA NADOLIG DDIGIDOL
## YSGOL SUL Y PRIORDY

### 13 Rhagfyr 2020

***CYNHALIWYD*** Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul eleni'n ddigidol gan ddod ag ychydig o oleuni mewn cyfnod mor ansicr ac anodd.

Croesawyd pawb i'r oedfa arbennig hon gan ein Gweinidiog, Beti-Wyn, hithau ger pulpud Y Priordy ac yna Iestyn gyda'i groeso twymgalon ar ddechrau cyflwyniad y plant. Soniodd Iestyn am ba mor wahanol yw pethau eleni a'n bod ni'n methu â bod gyda'n gilydd!

Yr efeilliaid Cadi ac Ifan oedd nesaf i'n hatgoffa mai trydydd Sul yr Adfent oedd hi. Esboniodd Ifan fod y drydedd gannwyll ar Dorch yr Adfent i gofio am Fair, mam Iesu. Nôl yn y Priordy fe gynheuodd Beti-Wyn dair cannwyll i sain y garol '*O Deuwch Ffyddloniaid'*.



Unwaith i'r garol orffen gwelwyd Osian, y darllenydd newyddion, yn y stiwdio yn ein hysbysu am newyddion diweddaraf Bwletin Y Priordy, sef bod y Llywodraeth wedi rhoi gorchymyn i bawb ddychwelyd i'r ardal lle cawsant eu geni er mwyn cofrestru. Tasg anodd yn ystod y cyfnod clo!

Ym Methlehem, roedd y gohebydd Beca yn sôn am yr hyn oedd yn digwydd yno. Roedd Joseff wedi teithio o Nasareth i Fethlehem er mwyn cofrestru, taith ddigon anodd ar y gorau, mae'n siŵr, heb fod ei wraig, Mair, yn disgwyl babi unrhyw funud! Mac oedd yn chwarae rhan Joseff ac wrth gael ei gwestiynu nododd ei bod wedi bod yn daith bell iawn ac wedi iddynt gyrraedd doedd yna unman i aros, *No Vacancies*!

Gwelwyd Greta, yn chwarae rhan Mair, yn cnocio a chwilio am rywle i

dreulio'r noson ond daethpwyd i'r canlyniad nad oedd unrhyw le i aros ac roedd rhaid aros yn y stabal.  Clywyd cân hyfryd Gareth Glyn, *"Iesu yw",* cyn mynd nôl wedyn i'r stiwdio at Osian gyda'r newyddion diweddaraf, sef bod babi bach wedi ei eni ym Methlehem a'r sôn oedd ei fod yn frenin.

Draw yn syth wedyn i Fethlehem at Miriam, yr ail ohebydd.  Nododd Miriam mai'r syfrdan mwyaf oedd bod y newyddion am yr enedigaeth wedi dod nid drwy'r teledu, y radio na'r cyfryngau cymdeithasol ond gan angylion! Clywyd hefyd mai criw o fugeiliad ddaeth i glywed am y newydd yn gyntaf!



Gwenan ac Elliw oedd yn chwarae rhan yr angylion gan ein hysbysu o'r hyn a ddigwyddodd y noson honno tra'r oedd y bugeiliad allan yn gofalu am eu defaid.  Cafodd Miriam, yn rhinwedd ei swydd fel gohebydd, y cyfle i holi un o'r bugeiliaid am ei brofiad.  Noa oedd yn cymryd rhan y bugail hwn a soniodd ba mor ofnus oedd e wrth weld yr angylion yn yr awyr.  Mynd am Fethlehem oedd yn rhaid i'r bugeiliad wedyn!



Torrwyd ar draws *Mae'r gwcw a'r robin*", cân gan Mynediad am Ddim, er mwyn dychwelyd at Osian yn y stiwdio i glywed yr hanes am ledaeniad y newyddion am y baban yr holl ffordd i'r dwyrain.  Clywsom am y Brenin Herod, a'i anhapusrwydd fod brenin arall wedi'i eni.

Gohebydd y dwyrain oedd Anna ac adroddodd nad oedd pethau'n dda yno gan fod Herod yn grac iawn wrth glywed y newyddion am faban newydd.  Cafodd Anna'r cyfle i gyfweld â Herod er mwyn dod i ddeall pam oedd e mor ofnus o'r baban newydd.  Ethan oedd yn chwarae rhan Herod.  Gwaeddodd Herod nad oedd yn ofnus o gwbl! Roedd e'n frenin cryf a dewr ac am ddanfon tri o'i ddoethion i Fethlehem er mwyn cyflwyno



anrhegion i'r baban Iesu.  Doedd e ei hun ddim yn medru teithio am ei fod yn gorfod hunanynysu gyda'i gamelod!  Yn chwarae rhannau Caspar, Balthasar a Melchior roedd Y Brodyr Snelson - Caleb, Osian a Gwilym.  Bant â nhw ar eu sgwteri, ie sgwteri, i gyflwyno eu rhoddion o basta, blawd a phapur toiled!

Daeth Anna wedyn â'r newydd fod y doethion wedi penderfynu dychwelyd adref ar hyd ffordd wahanol er mwyn osgoi Herod.  Roedd Herod wedi gofyn iddynt fynd nôl ato ar ôl y daith er mwyn rhoi gwybod iddo ymhle roedd y baban Iesu wedi ei eni.

Nôl eto i'r stiwdio at Osian, oedd erbyn hyn wedi llwyr ymlâdd ar ôl diwrnod llawn cyffro!  Clywyd "*Sêr y Nos yn Gwenu*" cyn i Efa adrodd y gerdd dymhorol hyfryd "*Gwaith y Nadolig*" gan Mererid Hopwood:

*Mae gwaith y Nadolig yn dechrau*
*Pan ddaw dydd Nadolig i ben,*
*Pan fydd Santa 'di throi hi am adra*
*A'r goeden yn ddim byd ond pren.*

*Pan fo'r tinsel yn saff yn yr atic*
*Yn angof mewn dau neu dri blwch,*
*Y cyfarchion a'r cardiau 'di llosgi*
*Ac 'ysbryd yr Ŵyl' yn hel llwch.*

*Bryd hynny mae angen angylion*
*I dorchi'u hadenydd go iawn,*
*A bryd hynny mae angen lletywr*
*All wneud lle er bo'r llety yn llawn.*

*Yr un pryd mae galw am fugail*
*I warchod y defaid i gyd,*
*Fel mae galw am ddoethion a seren*
*i egluro tywyllwch y byd.*

*Mae 'na alw am gast drama'r geni*
*Drwy'r flwyddyn i weithio yn gudd,*
*Am fod gwaith y Nadolig yn anodd,*
*Yn ormod o waith i un dydd.*

Mali ddaeth i'r sgrîn nesaf i'n tywys mewn gweddi oedd yn ein hatgoffa o bwysigrwydd go iawn y Nadolig, a hynny mewn cyfnod pan mae Nadolig go wahanol o'n blaenau. Fe'n harweiniwyd wedyn gan Beti-Wyn i draddodi Gweddi'r Arglwydd.



***TRO*** Côr yr Ysgol Sul oedd hi nesaf i ganu "Bethlehem" a hyfryd oedd gweld y plant i gyd ar y sgrîn fawr yn mwynhau canu'n rhithiol! Profiad newydd i lawer ohonynt!

# DIOLCH YN FAWR

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

# MENNA LLOYD WILLIAMS

***Waunfawr, Aberystwyth***

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

## PANED A SGWRS

**Bore Mercher, 6 Ionawr 2021 am 11 o'r gloch**

## PANED CYN NOSWYLIO

**Mae'r dydd yn fyr iawn dros fisoedd y gaeaf ac oriau hir o dywyllwch. Mae'r nos yn hir. Beth am ymuno â ni am sgwrs fer a phaned cyn noswylio?**

**Nos Fawrth 20 Ionawr 2021 am 7.30 yr hwyr**

ZOOM

***Byddwch yn derbyn y dolenni ar gyfer y cyfarfodydd hyn mewn da bryd***

ZOOM

**AR Y WE: www. priordy.org** ***(yn cynnwys Papur Priordy)***

## GWASANAETHAU DIGIDOL
## MIS RHAGFYR

**Dydd Sul 20 Rhagfyr 2020**

Darlledwyd yr oedfa ar bedwerydd Sul yr Adfent o Gapel Cana dan ofal ein Gweinidog, gyda Marlene Jones (Cana) yn darllen (Ioan 1 1-14) a Nia Ward (Bancyfelin) yn gweddïo. Cynheuwyd cannwyll Tangnefedd ar Dorch yr Adfent. Yn ei myfyrdod esboniodd ein Gweinidog ystyr ac arwyddocâd y Goeden Nadolig ac fel mae'n cydio nef a daear ac yn symbol o Dduw ei hun yn dod i'n plith yn Iesu Grist a wnaed yn ddyn. Y gair sydd gennym am y digwyddiad rhyfeddol hwn yw'r Ymgnawdoliad. A'r Ymgnawdoliad yn anad un peth arall sy'n gwneud y Nadolig yn Nadolig. I gloi'r oedfa cawsom gipolwg ar ddramâu'r Geni a gynhaliwyd yn y Priordy dros y blynyddoedd ar ffurf llungerdd hynod drawiadol o waith Tudur Dylan Jones.

**Noswyl Nadolig**

Ar Noswyl Nadolig cawsom funudau hyfryd i gyfarch a dymuno'n dda i'n gilydd a chofio'r rhai nad ydynt yn hwylus y dyddiau hyn cyn i ni oll ymdawelu a chael ein harwain mewn epilog byr gan ein Gweinidog. Gyda sain carolau fel *Ganol gaeaf noethlwg*, *Suai'r gwynt, suai'r gwynt* a *Dawel nos, sanctaidd yw'r nos* yn gefndir gwrandawyd ar adnodau o Lyfr Eseia (Pennod 11 – *O'r cyff a adewir i Jesse fe ddaw blaguryn, ac fe dyf cangen o'i wraidd ef*…), *Seren y Geni*, cerdd gan Mari Lisa a Gweddi i'n paratoi ar gyfer diwrnod geni Iesu a'r ymgnawdoliad o'r dwyfol.

**Bore Nadolig**

Roedd yr oedfa yng ngofal teulu Llys Gwyn, Abergwili. Cynheuodd Beti-Wyn y gannwyll yng nghanol y Dorch Adfent i arwyddo dyfodiad Iesu'r Goleuni i fyd o dywyllwch. Clywsom ddetholiad o garolau a darlleniadau o Lyfr Eseia gan Beti-Wyn ac o Efengyl Luc gan Elin Wyn. Cawsom hefyd ddatganiad hyfryd iawn o Fendigaid Nos (Adolphe

Adam) gan y tenor Dafydd Jones (cariad Elin), gyda Jack Campbell wrth y piano. Roedd y weddi gan Beti-Wyn a Sara Llwyd yn cyfleu dyheadau pob un ohonom - ar i gariad Duw yn Iesu ein cyffwrdd y Nadolig hwn yng nghanol y miri a'r hwyl a'r gofid a'r dryswch a'n symbylu i helpu eraill a'n hysbrydoli i newid y byd.

**Dydd Sul 27 Rhagfyr 2020**

Ar Sul olaf y flwyddyn roedd yr oedfa yng ngofal Beti-Wyn. Yn ei myfyrdod bu'n edrych yn ôl ar y flwyddyn a aeth heibio ac yn edrych ymlaen at yr un newydd. Cyffelybodd ddechrau blwyddyn i sgrîn wag ar gyfrifiadur. Does wybod pa brofiadau neu ofidiau fydd yn llanw'r sgrîn honno wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Ond does dim ffordd well o gamu i mewn i'r flwyddyn newydd nag yng nghwmni Duw yn Iesu - yn ysbryd dechreuad Efengyl Marc: *Dechrau Efengyl Iesu Grist, mab Duw*. Yn ogystal â rhoi cyfle arall i ni yn y flwyddyn newydd mae'r Efengyl yn gallu cynnig maddeuant i ni am unrhyw gamgymeriadau ar ein rhan yn y flwyddyn a aeth heibio. Dyna newyddion da'r Efengyl - dyfodiad Gwaredwr i'r Byd sydd drwy'r Groes a'r Atgyfodiad yn gallu'n rhyddhau o bob bai a methiant.



**Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?**
**Trowch at: cyfundeb.com**



## CWRDD GWEDDI'R FLWYDDYN NEWYDD

**Nos Lun, 4 Ionawr 2021 am 7 o'r gloch**

**Dewch i gychwyn blwyddyn newydd gyda gweddi, emyn neu ddarlleniad, neu dewch i wrando'n unig. Dim pwysau ar neb i gyfrannu. Eich cwmni sy'n bwysig i ni.**

***Byddwch yn derbyn y ddolen ar gyfer y cyfarfod hwn mewn da bryd***

**Carys Morgans, Swyddog Cyswllt y Gefeillio**
***yn cyflwyno...***

# NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

## GWEITHGAREDDAU'R DOLIG.



Bu’n rhaid inni addasu fel pob capel ac eglwys arall yn sgil y sefyllfa sydd ohoni. Gan nad oedd yn bosibl cynnal gweithgareddau yn y capel, llwyfannwyd drama ddigidol. Mererid oedd yn gyfrifol am y sgript ac fe wnaeth pob teulu fideo ohonyn nhw eu hunain gan ffilmio hefyd un p'nawn yn y dre ac o flaen capel Salem . Llwyddwyd i greu campwaith dan yr amgylchiadau. NADOLIG GWAHANOL yng ngwir ystyr y gair. Cafwyd cyfle i wylio'r cyflwyniad ar Zoom nos Sul cyn yr ŵyl.




## PARTI NADOLIG Y PLANT A SIÔN CORN.

Llwyddodd Siôn Corn i adael yr anrhegion 'leni wrth ddrws yr aelwydydd. Cynhaliwyd y Parti ar Zoom gan chwarae BINGO CRISTNOGOL a wnaed yn arbennig gan Seren Lois. Yn lle gweiddi ‘Bingo’ galwyd GOGONIANT!

## APÊL NADOLIG CYMORTH CRISTNOGOL

Methwyd cynnal Cinio Bara a Chaws arferol bore Sul cyn Dolig. Gwyddom am rai teuluoedd gafodd ginio Bara a Chaws gartref! Caiff yr aelodau gyfle i gyfrannu drwy anfon eu harian yn syth at Cymorth Cristnogol neu'n syth i gronfa'r capel.

Dymuniadau da i chi yn y Priordy a phob tangnefedd dros yr Ŵyl.

***Diolch eto am y newyddion a’n dymuniadau gorau i chithau hefyd ar gyfer y flwyddyn newydd.***

## TUDALEN BLAEN



***Rheswm Glenys Thomast dros ddewis yr emyn 'Dysg i mi garu Cymru…'***

Ers pan oeddwn i'n groten fach yn yr ysgol gynradd mae Urdd Gobaith Cymru wedi chwarae rhan bwysig iawn yn fy mywyd. Pan ofynnwyd i mi ddewis un o'm hoff emynau, yn naturiol ddigon roeddwn yn troi at



emyn hyfryd **W Rhys Nicholas**. Mae arwyddair gwych yr Urdd - *" Byddaf ffyddlon i Gymru a theilwng ohoni. I Gyd-ddyn pwy bynnag y bo Ac i Grist a'i gariad ef* " yn cael ei ddatblygu'n naturiol mewn tri phennill grymus, syml.

Fel aelod o'r Urdd, ac wedi ceisio gwneud ychydig dros y Mudiad dros y blynyddoedd, mae'r emyn yma yn cyfannu'r holl egwyddorion rwy i 'n teimlo sy'n bwysig yn ein bywyd.

Mae'r pennill cyntaf (sy ar glawr Papur Priordy y tro hwn) yn pwysleisio cariad at Gymru, "*ei hiaith a'i llên a'i chân* " ac rydw i wedi teimlo'n angerddol am hynny drwy mywyd.

Ers y dechrau roedd gwaith dyngarol yn bwysig yng ngweithgareddau'r Urdd - yng Nghymru a thu hwnt ac y mae'r ail bennill yn sôn am "garu cyd-ddyn" a "chofio eraill" gan ddangos "ewyllys dda"

I ni oedd yn mynychu'r gwersylloedd fel plant, ieuenctid a stiwardiaid, roedd yr Epilog yn cael lle blaenllaw bob nos ac felly yn tanlinellu'r trydydd cymal. Dyma a welir yn y trydydd pennill.

"*Dysg i ni garu'r Iesu a'i ddilyn ef o hyd*". Cyngor i'w ddilyn hyd yn oed yn y byd seciwlar yma. Rwy'n gobeithio bydd arwyddair yr Urdd yn parhau'n berthnasol i'r dyfodol gan nad oes sylfaen a phatrwm gwell i'w gael i'n bywydau.

| | |
|---|---|
| **Dysg imi garu cyd-ddyn<br>heb gadw dim yn ôl,<br>heb ildio i amheuon<br>nac unrhyw ysbryd ffôl;<br>wrth imi gofio eraill<br>rho im ewyllys dda<br>a chalon fydd yn eirias<br>dros bopeth a'u llesâ.** | **Dysg imi garu'r Iesu<br>a'i ddilyn ef o hyd<br>gan roi fy mywyd iddo,<br>Gwaredwr mawr y byd;<br>goleued ei wirionedd<br>fy meddwl i a'm dawn,<br>doed ysbryd ei anturiaeth<br>i'm bywyd i yn llawn.** |

# GWYNFYDAU'R NADOLIG

Gwyn eu byd y rhai sy'n cael eu cyffwrdd gan stori'r Nadolig, oherwydd cânt hwy dderbyn bendith y Goruchaf.

Gwyn eu byd y rhai fel yr angylion, sy'n cyhoeddi'r newyddion da am yr Ymgnawdoliad, oherwydd bydd eu genau'n atseinio â moliant i'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd.

Gwyn eu byd y rhai fel y bugeiliaid, sy'n ymateb ar frys i'r newyddion da, ohewydd mawr fydd eu llawenydd wrth gyfarfod â'r Iesu.

Gwyn eu byd y rhai fel y gwŷr doeth, sy'n gadael eu dyletswyddau beunyddiol i geisio'r Iesu'n ddiflino, oherwydd gwobrwyir eu dyfalbarhad â phrofiad byw o'r Meseia.

Gwyn eu byd y rhai fel Seren Bethlehem, sy'n defnyddio'u golau gwan i wasgaru tywyllwch ein byd, oherwydd cânt hwy weld disgleirdeb y Gwir Oleuni.

Gwyn eu byd y rhai fel gŵr y llety, sy'n cartrefu dieithriaid, oherwydd caiff eu haelwydydd eu llonni â phresenoldeb yr Arglwydd.

Gwyn eu byd y rhai fel yr Eifftiaid, sy'n darparu noddfa

ddiogel i ffoaduriaid, oherwydd cânt hwy brofi tangnefedd Crist.

Gwyn eu byd y rhai, fel baban Mair, nad ydynt yn ofni cael eu cysylltu â gwehilion cymdeithas, oherwydd cânt hwy wledda ar drugaredd a haelioni Mab Duw.

Gwyn eu byd y rhai sy’n ymlawenhau yng ngenedigaeth yr Emaniwel, oherwydd cânt hwy fwynhau bywyd tragwyddol gyda Duw.

***Eirian Dafydd***

***(O’r Pedair Tudalen Gydenwadol yn Y Tyst)***

***Mae Eirian a’i phriod Y Parchg Gwilym Dafydd yn ddau o ddarllenwyr ffyddlon Papur Priordy.***
***Cofion cynnes atynt.***




**CALENDR ADFENT RHITHIOL**
**Y PRIORDY**

**Diolch yn fawr iawn i’r Dr Angharad a Ieuan Wyn am baratoi’r Calendr ac i bawb a gyfrannodd ato ym mhob rhyw fodd.**

**Dr Llinos Roberts…**



## GWASANAETH POBL IFAINC Y PRIORDY (PIP)

Ni fu Nadolig tebyg o fewn cof y rhan fwyaf ohonon ni. Rydym yn byw trwy gyfnod fydd, dwi'n siŵr, yn cael ei drafod am flynyddoedd lawer i ddod, a haneswyr y dyfodol yn dehongli sut y gwnaethom ni fel cymdeithas ymateb i'r pandemig rhyngwladol. Tybed beth fydd ymateb ein hwyrion a'n gor-wyrion i'r sefyllfa wrth iddyn nhw ddysgu am hyn yn eu gwersi hanes? Fyddan nhw'n darllen penawdau erchyll y papurau newydd oedd yn datgan argyfwng a gwae ac yn awgrymu bod y Nadolig wedi cael ei ganslo eleni? Neu fyddan nhw'n pori'n ddyfnach i'r hanes ac yn dysgu am sut y daeth cymunedau at ei gilydd a chynnig cefnogaeth a chynhaliaeth i'r rhai oedd mewn angen? Fyddan nhw'n darllen am sut y gwnaeth ein Heglwys ni, fel nifer o rai ledled Cymru, er bod y drysau ar gau, barhau i gadw fflam y ffydd ynghyn? Fyddan nhw'n sylweddoli sut roedden ni yn y Priordy wedi teimlo gobaith hyd yn oed yn yr oriau tywyllaf? Oherwydd eleni doedd y Nadolig yn sicr heb ei ganslo. Er nad oedden ni o dan yr un to i ddathlu, daeth gwefr yr Ŵyl yn fyw i'n tai ac mae rhaid diolch am y dechnoleg a wnaeth hyn yn bosib.

Daeth y gwasanaeth Nadolig cyntaf gan bobl ifanc y Priordy ar 6 Rhagfyr – ar yr ail Sul yng nghalendr yr adfent. Elis oedd yn ein croesawu, gan esbonio trefn wahanol i'r gwasanaethau eleni. Daeth Gwion, Erin, Gruffydd, Jona a Jac yn eu tro i gyfri'r dyddiau nes y




Nadolig – 10 Turkish delight ar ôl ar waelod y bocs siocled, 9 amlen *After Eight* gwag mewn bocs, 8 darn mins pei wedi gwasgu dan draed, 7 jôc sâl o'r cracyrs Nadolig, 6 o hetiau papur wedi torri, 5 darn o fins pei yn friwsion ar y ford a'r llawr, 4 gwydr gydag olion *lipstick* arnyn nhw......3 anrheg arbennig gan wŷr doeth....dau berson gofalus yn gwylio dros y preseb.....Un Achubwr, un plentyn a anwyd i ni, dim ond un Emaniwel. A dyma ein hatgoffa ni, er bod y Nadolig yn wahanol eleni, fe fydd yr Un pwysig gyda ni am byth.

Tro Lucy a Catrin oedd nesaf yn adrodd sut y bydd dathliadau eleni yn bur wahanol i'r arferol – dim ffws, dim ffwdan – ond hyn yn atseinio'n ôl i'r Nadolig cyntaf un pan nad oedd hyd yn oed llety ar gael i Mair a Joseff. Hyn wrth gwrs yn ein hatgoffa mai'r baban Iesu sy'n gwneud y Nadolig yn arbennig....nid y tinsel a'r anrhegion.

Cawson ni ein swyno gan Syfi yn darllen cerdd Noswyl Nadolig, cyn i Tomos a Marged ddechrau'r cyflwyniad arbennig yn trafod goleuni. Darlleniad o Eseia gawson ni gan Gareth, yn adrodd hanes sut y bu'r proffwyd Eseia yn addo y byddai baban bach yn dod i'r byd – Tad yr oesoedd, Tywysog tangnefedd - a hwnnw yn oleuni i'r byd.


Cyfle wedyn i fwynhau gwledd wrth wrando ar ddeuawd feiolin gan Gwenllian a Harri, cyn i Siwan a Gwenllian barhau ar y thema goleuni a chyflwyno hanes y Cristingl i ni. Fe wnes i ddysgu llawer wrth wrando ar y cefndir – sut y daeth yr oren wedi ei addurno â channwyll ynddo yn symbol arbennig o'r Nadolig.



Cawsom weddi feddylgar gan Gwenan, Elain, Carina a Betsan yn parhau ar thema goleuni ac yn diolch i Dduw am ei oleuni ynghanol hyd yn oed yr adegau mwyaf tywyll.

Daeth y gwasanaeth i ben wrth i Beti-Wyn oleuo a chyflwyno'r Cristingl a datganiad graenus gan Tomos o gerdd Myrddin ap Dafydd (Y Cristingl)

A chynnau gobaith gŵyl o hyd
Yng nghefn nos gaeaf oer ein byd;
Awn â'n Cristingl tua thref
Ac yn ein llaw bydd lluniau'r nef.



Diolch i bobl ifanc y Priordy am y gwasanaeth bendigedig yma. Daeth gwir ysbryd y Nadolig aton ni i gyd dros y sgrîn eleni, a'n hatgoffa bod goleuni Duw yno i ni, hyd yn oed yn y nosweithiau tywyllaf. Na, doedd y Nadolig yn sicr heb ei ganslo eleni!

## HWYL DROS YR ŴYL
## BLE YN Y DRE?
## CWIS NADOLIG Y PRIORDY

**Atebion**

1. **Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin, Y Rhodfa**
2. **Yr Eglwys ym Mharc Myrddin**
3. **Y Garreg Filltir yn Heol y Frenhines**
4. **Uwchben Siop y Co-op yn Heol y Brenin**
5. **Y Pot Coffi yn y Clos Mawr**
6. **Y Plac Glas ar y wal allanol yng Nghapel y Bedyddwyr Saesneg yn Heol Awst**

***Pob un yn gywir gennych, gobeithio!***

**Diolch i Gareth Gravell am ein herio!**

## CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

**Nos Fercher 10 Mawrth 2021 am 7 ar Zoom**


*Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda*

## CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY A CHANA A BLAENORIAID BANCYFELIN

**Nos Fercher 24 Mawrth 2021 am 7**
**Naill ai yng Nghana Neu dros Zoom**

**Beth am droi at**
**Wefan yr Undeb?**
**www.annibynwyr.org**

## BARDDAS a CHYMDEITHAS Y PRIORDY
## yn lansio cyfrol newydd….




**Ar Nos Iau 17 Rhagfyr 2020 am 7, cynhaliwyd noson gan Barddas mewn cydweithrediad â Chymdeithas y Priordy i lansio'n rhithiol y gyfrol Llyfr Bach Nadolig sydd wedi'i olygu gan Elinor Wyn Reynolds.**

**Cyflwynwyd y noson gan Alaw Griffiths, Cydlynydd Barddas. Croesawodd nifer sylweddol ohonom oedd wedi ymuno â Zoom ar gyfer y lansiad cyn trosglwyddo'r cyfarfod i ofal Tudur Dylan Jones.**

**Bu Dylan yn holi Elinor am ddechreuadau'r gyfrol ac am ei chynnwys. Mae'n gyfrol fach o ran maint ond nid o ran sylwedd ac yn cynnwys atgofion gan wahanol gyfranwyr, ar ffurf cerdd a rhyddiaith, ar gyfer y Nadolig. Mae un atgof ar gyfer pob un o'r 24 niwrnod sy'n arwain at y diwrnod mawr ei hunan. Mae'n ymdebygu i galendr Adfent mewn gwirionedd a gellir ei ddefnyddio i gyfri'r dyddiau tan y Nadolig mewn dull hynod o bleserus. A braint i ni oedd gweld a chlywed tri o'r cyfranwyr yn darllen eu darnau, sef Osian Wyn Owen, Ian Rowlands a Mari George.**


**Cawsom glywed ychydig yn ystod y noson am brofiadau Nadoligaidd Elinor yn y Priordy ac ar yr aelwyd a pham mae'r dathliadau'n dechrau'n hwyrach ym mis Rhagfyr yng nghartref Dylan!**

**Noson ddifyr dros ben a da oedd deall gan Alaw Griffiths ar y diwedd fod sawl un wedi pwyso'r botwm 'chat' i gynnig sylw neu ddau yn ystod y noson.**

***HAWDD* synhwyro y byddai croeso mawr i ail Lyfr Bach y Nadolig. Yn ddiamau, byddai hynny wrth fodd pawb!**

***Llyfr Bach Nadolig, gol. Elinor Wyn Reynolds - Barddas £9.95***

**Nansi Hayes…**




## Cyfarchion Blwyddyn Newydd!

***RHAID*** i mi ufuddhau i gais Alun Charles a cheisio rhoi gair ar bapur ar ddechrau blwyddyn newydd arall!

Yn gyntaf, rwy'n mynd i'ch cyfarch â'r geiriau "Blwyddyn Newydd Well", yn hytrach na'r arferol, gan fod y flwyddyn 2020 yn un yr hoffai'r rhan helaeth ohonom ei hanghofio, mae'n siŵr, am resymau gwahanol.

Yn ôl-rifynnau Papur Priordy soniais am y traddodiadau a'r arferion yn ymwneud â'r Calan, a'r Hen Galan hefyd, ond y tro hwn fedra i ddim osgoi'r testun brawychus "Covid-19", sy'n ofid yn wir ac yn un mor anodd ei ddeall.



Mor bell yn ôl â phan ddechreuodd y Clo Mawr ysgrifennais bwt o bennill "talcen slip", i'r wyrion, sy'n mynd rhywbeth fel hyn:

*O deio'r hen feirws cas*
*Mae'n stopo ni gyd i fynd mas*
*A mwy na hynny blantos cu*
*Mae'n stopo ni i'ch gweled chi.*
*Ond pan ddaw'r "muddle" hyn i ben*
*Fe gawn "cuddle" eto, gewch chi weld*
*Ond 'Cwtsh heb Dwtsh' fydd hi nawr am sbel!*



Mae rhai ohonom yn cofio clywed yn yr Ysgol Sul 'slawer dydd am y Deg Pla yn yr Aifft mae'n siŵr, ac wedi dysgu wedyn mewn dosbarthiadau Hanes am lawer iawn o blâu arall a ddaeth i drechu cenedlaethau ar hyd y canrifoedd.



Dyna i chi'r "Bubonic Plague" a oedd yn gyfrifol am y bacteria a ddechreuodd y "Pla Du" neu'r "*Black Death*", yn ystod y blynyddoedd 1348-1353 - yr un

mwyaf marwol a gofnodwyd yn hanes dynoliaeth erioed, ac a ddiddymodd y drydedd ran o boblogaeth Ewrop.


Mae'n debyg mai yn Asia Ganol y dechreuodd hwn, gan drafaelu ar hyd "Ffordd y Sidan", a'i gario gan chwain yn byw ar y llygod mawr du a oedd yn trafaelu ar longau masnach o Genoa.  Lledaenodd wedyn gan gyrraedd Affrica a gweddill Ewrop, ac wedi cyrraedd tir yn cael ei ledaenu ymhellach gan fodau dynol.



Y pandemic nesaf a achoswyd gan feirws, ac a oedd o fewn cof rhai o'n cyndeidiau, oedd "Ffliw Sbaen", ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, Parhaodd o Fis Chwefror 1918 i Fis Awst 1920, gan ladd pum can mil, sef trydedd rhan poblogaeth y byd.

OND i ddod yn ôl at yr un sy'n ein poeni ni nawr, a beth yw'r ffordd orau i ddygymod ag e?

Wel, rydym yn cael awgrymiadau a chanllawiau i'n helpu ryw gymaint, fel hunanynysu, cadw pellter, gwisgo mygydau, golchi dwylo ac ati, ac



erbyn hyn yn dod yn gyfarwydd â'r camau y dylem fod yn eu dilyn.

Mae rhywbeth da yn medru dod o sefyllfaoedd gwael yn aml, ac yn y cyswllt hwn mae gwneud pethau bach





dros eraill yn bwysig, fel yr awgrymodd ein Gweinidog y Sul o'r blaen - codi'r ffôn i gael sgwrs gyda'r rhai sy'n methu mynd mas, siopa dros eraill - sy'n gwneud byd o wahaniaeth. A fan yma mae'n rhaid cydnabod y gwaith mae Beti-Wyn a'r Diaconiaid yn ei wneud, fel rhodd "Y Bocs Bach Brown", y soniais amdano yn rhifyn Tachwedd y Papur. Mae bod yn barod i

addasu ein ffordd o fyw yn bwysig hefyd, oherwydd fydd pethau ddim yn union yr un fath o hyn ymlaen.

Wel, dyna ddigon am yr hen *Ovid* bondigrybwyll, Mae golau ar ddiwedd y twnel, Mae BRECHLYN ar gael, diolch i wyddonwyr byd-eang, a hynny'n syndod o fuan.



Mae'n dda cael dweud "Bod Haul Ar Fryn"! Felly, daliwch ati, a phob bendith i chi i gyd.




***Diolch yn fawr iawn i Nansi am daro nodyn gobeithiol ar ddiwedd ei herthygl a hynny mewn cyfnod sy'n llawn o gyfnewidiadau o un wythnos i'r llall. Cydiwn oll yn ei chyngor a dal ati!***



***Casglwyd £200 at Ganolfan Galw-i-mewn Capel y Bedyddwyr Saesneg ar Ddydd Sul 28 Tachwedd 2020.***

***Diolch i bawb a gyfrannodd ac i Adrian Evans, ein Trysorydd, am gadw'r cyfrifon.***






**CYNAN**

**Drama Bywyd**
**Albert Evans Jones**
**(1895-1970)**

**Gerwyn Williams**

**Y Lolfa: £30.00**

**Dyddiad Cyhoeddi**
**Hydref 2020**

**Y cofiant cyntaf cyflawn i Albert Evans Jones – Cynan ar lafar gwlad**

# PIP YN Y GWASANAETH NADOLIG














# Ifanc@Priordy

## Nadolig!



Wel wel, bu rhaid newid holl drefniadau'r Nadolig oherwydd Covid-19. Diolch i bawb o'r Ysgol Sul a PIP a fu'n brysur yn ffilmio. Rwy'n siwr eich bod y cytuno bod y ddwy oedfa Nadolig Digidol yn tip top! Da iawn bawb!

## Yr Ysgol Sul a PIP

Byddwn mewn cyswllt yn fuan! Seibiant am y tro gan eich bod wedi gweithio mor galed dros y Nadolig!

## Côr Rhithiol



Diolch i bawb a fu'n canu yng nghôr rhithiol yr Ysgol Sul ac i Angharad a Ieuan am olygu'r cwbl. Cafodd y côr sylw ar 'Prynhawn Da S4C'! Chi'n enwog!

Tan y tro nesaf, Cadwch yn ddiogel ac yn iach.
Hwyl, Beti-Wyn


# Chwilotair y Flwyddyn Newydd

**Llythrenau sengl yn unig**

S X D
R H O D D I O N J
Q A K P D H Z F V G S Y A
D W F B M B D S J Q Z Q X U A P O
P I H T P D I N T D S K X C L Y U B O
T K O K C F W H C P I F C T Y M F S R T G
S X O L R W M Z P Y L T I E S U Q V M N U
C A M E L O Q F Y H J D M R L Z O
X M T R Q E F U N R F V Y H X N A
W T U Y Z G S V G Z Y Q V T P K C L P T C V N O B
B D M S C B A O E R F E L O E W G E A Z G O K R J
C N F T U X W E D T L M D Q J F K D V L I Y U C C
D O B O W L G U A A G I O P A Q L Y R I H F A H K A B
M P U H Y C U F S N F R O Q C W S L F T I R M E M E J
Y M E I L H F S E E E H O N B A P B E T H L E H E M Z
D N P L Q X R H H V Y R A S Z O M C T R D A Q
A B V C S E O W Z L Q V W D V E R G M D J
H F L R A N Q H X Q Q L T R D T N K Y T H
Q T W D L L I W E M
S H H Y M A R W L B F W
U C Y D F N W G I K X C A L E N N I G C N
S Y H E D C U N W S X B A B H P R Y H F B
L R J F Y A I H T X T B A B A N M W K
R U W V N E W Y D D D C M O L C P
G R T P D K J L L S V P C
W L U B L I U E U
L Q P

| | | |
|---|---|---|
| BLWYDDYN | NEWYDD | DATHLU |
| CROESAWU | IONAWR | DECHRAU |
| CALAN | MARILWYD | CALENNIG |
| GAEAF | OERFEL | YSTWYLL |
| DOETHION | RHODDION | AUR |
| THUS | MYR | SEREN |
| DILYN | CAMEL | BETHLEHEM |
| BABAN | IESU | HEROD |

# PIP YN Y GWASANAETH NADOLIG

| | | |
|---|---|---|
|  |  |  |
|  |  |  |
|  |  |  |
|  |  |  |

# Y newyddion diweddaraf ynghylch y modd y mae'r pandemig yn gallu effeithio ar ein pobl ifanc

## Elin Wyn

## Covid-19 a'r Myfyriwr Prifysgol



Ar ôl sydynrwydd gadael Prifysgol Birmingham yn y gwanwyn, bu gweddill y flwyddyn yn un digon pryderus a dryslyd. Roeddwn yn siŵr o fy lle ar gwrs MA Newyddiaduriaeth, Cyfryngau a Chyfathrebu ym Mhrifysgol Caerdydd ond yn ansicr o'r trefniadau yn ystod tymor yr Hydref oherwydd effeithiau cynyddol Covid-19.

A minnau wedi cyfarwyddo â'r drefn yn Birmingham, roedd cychwyn mewn prifysgol newydd a threfn weinyddol newydd yn ychwanegu at y dryswch braidd, ac felly roeddwn yn hynod o falch o gael cadarnhad ym mis Awst fy mod yn cychwyn ar y cwrs MA ym mis Hydref, sef mis yn ddiweddarach na'r disgwyl.

Roeddwn eisioes wedi sicrhau llety mewn tŷ yn Y Waun Ddyfal gyda dwy fyfyrwraig feddygol, Lowri o Efailwen a Hannah o Wlad yr Haf. Wedi cyfnod hir iawn adref, daeth y dydd i symud i'r llety newydd, dim ond i mi sylweddoli fy mod yn y tŷ ar fy mhen fy hunan am yr wythnosau cyntaf, gan fod Lowri a Hannah ar leoliadau mewn ysbytai, a hefyd yn gorfod hunanynysu cyn dychwelyd i'r tŷ. Bu hyn yn gychwyn anodd gan nad oedd unrhyw ddigwyddiadau cymdeithasol a fyddai fel arfer yn cael eu cynnal yn ystod wythnosau cyntaf tymor yr Hydref gan y Brifysgol. Roedd hyn yn wir hefyd am Undeb y Myfyrwyr. Dyma dymor cyntaf hollol wahanol i'r profiad a gefais wrth gychwyn ym Mhrifysgol Birmingham dair blynedd ynghynt a oedd yn gyfnod llawn bwrlwn a digon o gyfleoedd i gymdeithasu ac i ddod i nabod cyd-fyfyrwyr.

Drwy lwc a bendith, roedd fy ffrind ysgol, Cara, sydd hefyd yn aelod yn Y Priordy, newydd raddio o Aberystwyth ac wedi penderyfnu dod i Gaerdydd i astudio MA, a thrwy ryw rhyfedd wyrth, roedd y ddwy

ohonom yn lletya dafliad carreg oddi wrth ein gilydd! Dyma fynd ati ar unwaith i ffurfio swigen! Yn wyneb y ffaith bod y tywydd mor braf ym mis Medi, llwyddwyd yn ein swigen i fynd i Barc y Rhath ac amryw o lefydd eraill y tu allan. Roedd hawl mynd i ganol y ddinas am ddiod neu bryd o fwyd yn ystod y cyfnod cynnar, gyda'r tafarndai'n llym iawn eu rheolau. Rhaid oedd archebu bwrdd o flaen llaw ac aros ger y bwrdd drwy gydol ein hymweliad. Er bod y sefyllfa'n rhwystredig iawn, roedd rhaid gwneud ein gorau i ufuddau i'r cyfyngiadau, ond roedd yn gwbl amlwg bod eraill, yn cynnwys myfyrwyr a rhai y tu allan i'r Brifysgol, yn meddwl yn wahanol. Canlyniad hyn oedd gweld y ffigurau Covid yn y Brifddinas yn saethu i fyny'n gyflym iawn i ffigur arswydus o uchel.

Erbyn mis Tachwedd, cyflwynodd y Brifysgol system sgrinio Covid-19 a oedd yn golygu bod myfyrwyr, hyd yn oed os nad oeddynt yn dangos symptomau, yn medru cael eu profi. Roedd hyn yn beth da iawn ac yn rhoi cyfle i unrhyw rai a oedd yn awyddus i ymweld â'u cartref (pan nad oedd yn gyfnod clo) gael eu profi cyn symud o'r ddinas i fannau eraill yng Nghymru.

Mae'r cwrs MA yn cael ei redeg gan yr Ysgol Astudiaethau Newyddiaduriaeth, Cyfryngau a Diwylliant ger stiwdio newydd y BBC gerllaw Gorsaf Drenau Canolig Caerdydd. Mae'n ganolfan newydd sbon gyda'r cyfleusterau gorau a chyfoes. Ar hyn o bryd, dim ond unwaith yr wythnos rwy'n gorfod mynychu'r Ysgol a hynny ar gyfer seminar wyneb yn wyneb. Mae gweddill y darlithiau ar lein. Mae dysgu ar lein yn dipyn o ddisgyblaeth, a hawdd iawn yw colli'r arfer o ganolbwyntio, ond gydag amser, mae un yn cyfarwyddo â'r drefn newydd ac yn ddiolchgar fy mod yn medru dilyn y cwrs o gwbl o dan yr amgylchiadau presennol.

Un her ychwanegol yw'r ffaith mai dim ond slot o ddwy awr mae pob myfyriwr yn medru'i sicrhau yn y llyfrgell. Rhaid bwcio ar lein ddiwrnodau o flaen llaw, ond teimlaf nad yw dwy awr yn ddigon o amser i wneud y gwaith sydd angen ei gyflawni. Rwy'n gyfarwydd â threulio diwrnodau ar y tro yn gweithio yn y llyfrgell, ac mae'r drefn hon, oherwydd gofynion pellhau cymdeithasol a diffyg lle yn y llyfrgell, yn dipyn o her i mi'n bersonol.


Rwy'n mwynhau'r cwrs yn fawr ac mae'n newid i astudio rhywbeth

gwahanol i Ddiwinyddiaeth a Chrefydd! Ond efallai y caf gyfle i ddwyn peth o'm mhrorfiad ar y cwrs yn Birmingham i mewn i'r MA.

Rwy'n edrych ymlaen at ailgydio yn y gwaith wedi'r Nadolig, ond heb dderbyn unrhyw fanylion ynglŷn ag ymweld â'r campws hyd yn hyn.

***O GOLLI*** un seremoni graddio ym Mhrifysgol Birmingham oherwydd cyfyngiadau Covid yn ystod haf 2020, gobeithio'n fawr y gwelaf raddio yn dilyn yr MA yn 2022!

## LLYFR I EDRYCH YMLAEN ATO!




**HOFF EMYNAU'R CYMRY**


**Casglwyd**
**gan**
**Rob Nicholls**

**Cyhoeddiadau'r Gair: £8.99**

**Dyddiad Cyhoeddi**
**(Heb ei gyhoeddi eto)**
**2021**

**100 o Gymry Adnabyddus yn rhannu am eu hoff emynau**





**DALIWCH ATI I GASGLU STAMPIAU**
**A CHETRYS**

## Y newyddion diweddaraf ynghylch y modd y mae'r pandemig yn gallu effeithio ar ein pobl ifanc



## Gareth Jones
## Covid-19 a'r Myfyriwr Ysgol

Gan fod 2020 wedi bod yn flwyddyn hynod o ryfedd, roedd yn addas felly bod bywyd ysgol o fis Medi ymlaen wedi bod yn hollol wahanol hefyd. Teimlad od oedd camu ar y bws ar y 3ydd o Fedi, am y tro cyntaf ers 6 mis, gyda phawb yn gwisgo masgiau ac yn edrych yn ddieithr. Yna, cerdded i mewn trwy ddrysau'r ysgol a mynd yn syth i ddiheintio ein dwylo, cyn mynd i'r babell tu allan a oedd yn 'lolfa' i ni ym mlwyddyn 12 am yr hanner tymor cyntaf gan fod angen cadw blwyddyn 12 a 13 ar wahân oherwydd y swigod blwyddyn. Yn ogystal, roedd system un-ffordd yn yr ysgol er mwyn rhwystro disgyblion, yn enwedig rhai o flynyddoedd gwahanol, rhag cerdded yn rhy agos at ein gilydd gan geisio sicrhau fod llai ohonom yn dod i mewn i gysylltiad agos â'n gilydd.

Er y rheol o wisgo masgiau ym mhobman yn yr ysgol ac eithrio mewn ystafelloedd dosbarth, a'r system un-ffordd a gorfod diheintio ein dwylo yn aml, roedd gwersi yn parhau fel arfer, ac a dweud y gwir, nid oeddwn wedi gweld newid mawr o gwbl yn y gwersi o gymharu â nôl ym mis Mawrth. Gan nad oedd rhaid gwisgo masgiau yn ystod gwersi, nid oedd yn teimlo o gwbl yn ystod yr awr neu ddwy hynny yn y dosbarth bod feirws yn dal i ledaenu. Yr unig beth oedd yn ein hatgoffa o'r feirws o fewn gwers oedd ein bod yn gorfod sychu'r byrddau a'r cadeiriau ar ddiwedd pob un o'r gwersi gan ddefnyddio weipiau gwrthfacterol i ladd unrhyw feirysau a all fod arnynt. Roedd trefniadau amser cinio hefyd yn wahanol, gyda phawb yn gorfod prynu bwyd yn unig yn y ffreutur ac yn ei fwyta naill ai yn y neuadd, neu yn y babell i flwyddyn 12 am yr hanner tymor cyntaf (yn y neuadd ar ôl hanner tymor) neu ar y llwyfan ar gyfer blwyddyn 13. Byddai un flwyddyn allan o 7, 8, 9, 10 neu 11 yn cael eu galw i ginio am 12, felly yn cael hanner gwers 3 cyn cinio, ac yn gorfod mynd nôl i gael yr ail hanner o wers 3 am 1 o'r gloch ar ôl cael cinio. Yna, byddai'r chweched yn cael eu galw am 12:20 ac yna'r blynyddoedd eraill yn eu tro er mwyn lleihau faint o

bobl oedd yn cael cinio ar yr un pryd ac i sicrhau nad oedd blynyddoedd gwahanol yn cymysgu.

Profiad gwahanol a hollol newydd arall a gefais oedd yn ystod yr wythnos o'r 2il i'r 6ed o Dachwedd, sef yr ail wythnos o'r cyfnod clo byr, neu'r "*firebreak*" . Yn ystod yr wythnos honno, nid oedd unrhyw ddisgybl yn yr ysgol, ac yn hytrach roeddem i gyd yn cael ein haddysgu o adref, gyda'r athrawon yn yr ysgol yn ffrydio gwersi yn fyw i ni dros **Google Meet**. Yn lwcus, roeddwn i'n gyfarwydd â defnyddio Google Meet yn barod gan fy mod yn astudio Mathemateg Bellach fel pwnc Lefel A ac mae'n cael ei ddysgu i ni ym Mro Myrddin o Ysgol Maes y Gwendraeth dros Google Meet. Er hyn, roedd y profiad o fod adref ac yn cael gwersi ar-lein yn wahanol iawn nid yn unig i ni fel disgyblion, ond hefyd i'r athrawon gan eu bod yn siarad at sgrîn yn hytrach nag at bobl fel petai. Serch hynny, teimlaf ei fod wedi bod yn llwyddiant, ac o ganlyniad penderfynodd yr ysgol addysgu blwyddyn 10 a 12 adref am wythnos ar ddechrau Rhagfyr, a blwyddyn 11 a 13 yr wythnos ganlynol, a gwneud hyn dros Google Meet. Roedd hyn yn baratoad da ar gyfer wythnos ola'r tymor cyn y Nadolig pan benderfynodd y llywodraeth ar y funud olaf i gau'r ysgolion gan symud ein haddysg i fod ar-lein.


I ychwanegu at yr holl ansicrwydd sydd wedi bod eleni, cyhoeddodd Kirsty Williams, y gweinidog addysg, ar y 10fed o Dachwedd na fydd arholiadau TGAU na Lefel A yn cael eu cynnal ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Yn amlwg, nid oedd arholiadau wedi eu cynnal cyn yr haf chwaith, gyda'r graddau yn cael eu seilio ar asesiadau a barn athrawon, ond eleni mae'r llywodraeth wedi penderfynu cynnal asesiadau sydd wedi eu gosod yn allanol ac sy'n mynd i gael eu marcio yn allanol er mwyn sicrhau mwy o gysondeb a thegwch yn y graddau. Nid wyf yn hollol siŵr beth yw'r gwahaniaeth rhwng yr asesiadau yma ac arholiadau go iawn gan fod y ddau yn cael eu gosod a'u marcio yn allanol. Felly, mae llawer o ansicrwydd yn dal i fod am sut bydd yr arholiadau yma yn mynd i weithio, ond yr unig beth gallaf i a phob disgybl arall ei wneud ar hyn o bryd yw parhau i weithio'n galed ac aros i weld beth fydd y llywodraeth a Kirsty Williams yn ei gyhoeddi nesaf.



**CODI'R LLEN AR BWNC O BWYS**

**Yn yr erthygl isod mae'r Dr Huw Michael yn gosod y cefndir ar ein cyfer i bwnc digon astrus ond pwysig ar ddechrau blwyddyn newydd – pwnc y mae'n allweddol i ni yn yr Eglwys Gristnogol ymddiddori'n fawr ynddo. Nodwyd yn ddiweddar (BBC Cymru Fyw - 17.12.2020) fod allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru yn gostwng yn arafach na gweddill y Deyrnas Unedig a bod y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC) sy'n cynghori llywodraethau'r Deyrnas Unedig yn dweud mai'r 2020au yw'r 'degawd tyngedfennol' yn yr ymdrechion i leihau allyriadau.**

**Dr Huw Michael….**



## *Gwynt o'r môr - trydan ar ei ôl?*

***MAE'N*** hysbys fod llywodraeth Prydain wedi ymrwymo i gyrraedd y nod o waredu allyriadau carbon o ddefnydd ynni ym Mhrydain erbyn 2050 (net zero). Mae yna fudiadau yn gwrthdystio i ddwyn pwysau ar y llywodraeth i fod yn llawer mwy uchelgeisiol na hyn, ac i gyrraedd y nod yma erbyn 2030 neu hyd yn oed ynghynt.  Heb ddwyn tlodi ar y wlad wrth newid ein ffordd o fyw yn gyfangwbl, bydd cyrraedd y nod erbyn 2050 yn ddigon o her heb sôn am wneud hynny ynghynt.

Fel rhan o ymdrech y llywodraeth i symud at y nod o wared ar



allyriadau carbon, gwnaeth Prif Weinidog Prydain Boris Johnson (BJ) araith yng nghynhadledd rithiol ei blaid ym mis Hydref yn rhagweld y byddai anghenion trydan pob aelwyd neu gartref ym Mhrydain yn cael eu diwallu gan drydan wedi ei gynhyrchu gan dyrbinau gwynt ar y môr (40GW o allu i gynhyrchu trydan) erbyn 2030.

Ai rhethreg gorliwiedig arferol BJ oedd hyn neu a oes mymryn o wirionedd neu debygrwydd yn perthyn i'w gyhoeddiad? Gadewch i ni edrych ar ei addewid yn fwy manwl.

*Y sefyllfa ar hyn o bryd:*

Yn 2020, mae 10GW o allu cynhyrchu trydan gan dyrbinau gwynt ar y môr o gwmpas ynys Prydain, yn cyfateb i 25% o'r trydan sy'n cael ei ddefnyddio mewn blwyddyn ar gyfartaledd mewn aelwydydd ar hyn o bryd, a ryw 10% o'r holl drydan sydd cael ei ddefnyddio ym Mhrydain. Felly, byddai cynnydd o 10GW i 40GW yn ynni gwynt o'r môr yn cyfateb i lefel y galw am drydan mewn aelwydydd fel y mae nawr. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y galw am drydan yn cynyddu o ganlyniad i fwy o geir trydan a mwy o bwmpiau gwres mewn tai newydd yn benodol.

Faint o obaith sydd y bydd cynnydd o 10GW i 40 GW mewn deng mlynedd?

Mae nifer o ffermydd tyrbinau gwynt ar y môr newydd wrthi'n cael eu datblygu / hadeiladu ar hyn o bryd. Dylai'r datblygiadau newydd hyn gyfrannu 3.5 GW yn ychwanegol erbyn 2023 a 5.5 GW arall yn rhagor erbyn 2025.

Yn ychwanegol at hyn mae Ystad y Goron (Crown Estate) wedi cyhoeddi rownd prydlesu gwely'r môr newydd yn Lloegr a Chymru a allai arwain at o leiaf 7GW ychwanegol eto o ddatblygiadau newydd ynni gwynt o'r môr. Mae Ystad y Goron yr Alban hefyd wedi cyhoeddi yn ddiweddar eu bod nhw'n mynd i gynnal rownd prydlesu newydd gwely'r môr a allai arwain at 10GW ychwanegol. Felly, mae'n gwbl bosibl y gwelwn ni'r gallu i gynhyrchu trydan o dyrbinau gwynt ar y môr yn cynyddu i dros 30GW erbyn 2030, beth bynnag am 40MW.

Beth yw'r broses o ddatblygu tyrbinau gwynt newydd ar y môr?

1) Y cam cyntaf yw derbyn prydles gan Ystad y Goron.

   Ystad y Goron sy'n rheoli'r rhan fwyaf o wely'r môr ac yn dyfarnu prydlesi ar gyfer datblygiadau. Mae'n gallu cymryd hyd at 8-10 blynedd i ddechrau cynhyrchu trydan ar ôl derbyn prydles gan Ystad y Goron. Pam cymaint o amser gallwch ofyn.

2) Cynllunio a Chaniatadau

Ar ôl derbyn prydles mae rhaid i'r cwmni sy'n datblygu'r fenter wneud cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (Development Consent Order – DCO) gan yr Arolygaeth Cynllunio (Planning Inspectorate), derbyn caniatadau gan yr Awdurdodau Lleol, a gwneud cais am Drwydded Cynhyrchu Trydan gan OFGEM (Corff y Llywodraeth sy'n gyfrifol am reoleiddio trydan a nwy ym Mhrydain).

3) Trawsyriant Pŵer

Bydd angen i ddatblygwr y tyrbinau gwynt newydd ofalu fod modd trawsyrru'r trydan i'r grid trydan ar y lan. Ar ôl adeiladu'r llinellau trawsyrru, mae'r datblygwr yn trosglwyddo'r cyfleusterau i'r cwmni sy'n berchen y system trawsyriant ar y môr (Offshore Transmission Owner - OFTO). Penodir yr OFTO gan OFGEM ar ôl derbyn cynigion cystadleuol. Yna, mae rhaid cael cytundeb trawsyrru gyda'r Grid Cenedlaethôl (National Grid) sy'n gweithredu'r holl system (SO - System Operator).

4) Cefnogaeth ariannol

Unwaith y bydd Gorchymyn Cydsyniad Datblygu'r datblygwr wedi ei dderbyn ynghyd â'r caniatadau eraill, gall y datblygwr gystadlu am Gytundeb Gwahaniaeth (Contract for Difference (CfD)) h.y. y cymorth ariannol mae'r llywodraeth yn ei gynnig i gynhyrchu trydan mewn modd adnewyddadwy. Bydd "pris taro" yn cael ei gytuno - y pris y bydd y datblygwr yn ei dderbyn am y trydan y bydd yn ei gynhyrchu, dim ots beth fydd pris y farchnad ar y pryd.

Gall y pedwar cam uchod gymryd hyd at 6 blynedd i'w cwblhau, a hyn cyn i'r datblygwr ddechrau tendro'r contractau sydd eu hangen i wneud y cynllun peirianyddol manwl a'r gwaith adeiladu a fydd yn cymryd 4-5 mlynedd arall.

Wedi cymryd hyn i ystyriaeth, mae'n annhebyg y cyrhaeddir y nod o 40GW erbyn 2030, heblaw fod y llywodraeth yn gallu cyflymu'r broses trwyddedu / caniatadau / cytundebau gwahaniaeth yn sylweddol.

Rhan arall o Araith BJ oedd fod y llwwodraeth yn mynd i geisio gofalu fod mwy o waith adeiladu'r tyrbinau'n digwydd ym Mhrydain, yn hytrach na thramor. Roedd yn sôn am £160 miliwn o arian cyhoeddus i

hybu datblygiad y diwydiant yma ym mhorthladdoedd Prydain, er nad yw hwn yn swm sylweddol yn y cyswllt hwn. Bydd unrhyw gymorth ariannol gan y llywodraeth yn amodol fod canran uchel o'r gwaith adeiladu yn cael ei wneud ym Mhrydain.

Yn ddiddorol i ni yng Nghymru, ymhlith y datblygiadau sydd ar y gweill yn y degawd hwn mae cynllun "Awel y Môr". ryw 10km oddi ar yr arfordir rhwng Llanfairfechan a Bae Colwyn. Byddai hwn yn ychwanegu 580 MW o allu cynhyrchu at y 580 MW o allu cynhyrchu sydd eisoes yn bodoli yn fferm wynt Gwynt y Môr (a ddechreuodd gynhyrchu trydan yn 2015). Mae disgwyl y bydd Awel y Môr yn dechrau cynhyrchu trydan erbyn 2030 ar ôl derbyn prydles gan Ystad y Goron eleni.

Mae'r nod yma ar gyfer cynhyrchu trydan trwy ddefnyddio gwynt ar y môr yn un o'r cynlluniau yn y rhestr o ddeg peth gyhoeddodd llywodraeth Prydain ar 18 Tachwedd i hybu ei "Chwyldro Diwydiannol Gwyrdd".

Ymhlith y pethau eraill roedd:

- Gwahardd gwerthiant ceir newydd petrol neu diesel erbyn 2030, gyda grantiau ar gyfer ceir trydan a'r isadeiledd trydanu batriau ceir.
- Ariannu mwy o ymchwil ac arbrofi'r defnydd o hydrogen yn lle nwy naturiol i wresogi tai.
- Hybu adweithyddion niwclear bach.
- Arian i insiwleiddio cartrefi.
- Ariannu ymchwil a threialon dal a storio deiocsid carbon.
- Ymchwil i ddatblygu y defnydd o ynni gwyrdd gan awyrennau a llongau.
- Plannu 30,000 hectar o goed bob blwyddyn.
- Hybu trafnidiaeth cyhoeddus, beicio a cherdded.
- Gwneud Llundain yn ganolfan ar gyfer ariannu diwydiant gwyrdd.

Addawyd £12 biliwn o arian cyhoeddus ar gyfer y rhestr yna. Does dim manylion eto sut bydd y llywodraeth yn cyflawni'r rhestr uchod, ond roedd y Papur Gwyn a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr yn ymhelaethu rywfaint ar y targedau.



Yr eitem ddenodd y sylw mwyaf yn y wasg oedd gwahardd gwerthiant ceir newydd petrol a diesel erbyn 2030. A fydd modd cyrraedd y nod yma? Mae'n amserlen uchelgeisiol dros ben. I'w wireddu bydd angen tri pheth i ddigwydd:

1) hwyluso aildrydanu batrïau ceir trydan, a'i wneud bron mor hawdd â llenwi tanc eich car â phetrol.
2) gostwng prisiau ceir trydan. Mae £3000 o grant i gael ar hyn o bryd, ond dyw hyn ddim agos digon i ddod â phris car trydan i lawr i lefel pris car cyffredin, a
3) gwared ar y *"range anxiety"* trwy greu rhwydwaith eang o orsafoedd trydanu ceir trydan h.y. bydd angen rhoi hyder i bobl y byddant yn gallu cwblhau eu taith heb redeg mas o fatri.

Yn bersonol, dw i ddim eto yn teimlo'n barod i brynu car trydan yn unig am y rhesymau hyn. Byddwn yn barod i fynd am gar hybrid nesaf, ond ddim un gyfangwbl trydan eto.  Beth amdanoch chi?

***BYDD*** dilyn y datblygiadau i wireddu'r Chwyldro Diwydiannol Gwyrdd dros y blynyddoedd sydd i ddod yn ddiddorol dros ben.  Un peth yw creu targedau - peth arall yw eu gwireddu a thalu am y gost!

**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**



**DIOLCH YN FAWR**

Diolch i Beti-Wyn a Tudur Dylan Jones am y lluniau'r mis hwn.



**Y TYST**
**yn llawn newyddion da yn ystod y clo!**
**50c y rhifyn!**
**Cysyllter â Sulwyn Thomas**



# DIOLCH YN FAWR IAWN BETI-WYN!



**Trefnodd Swyddogion yr Ofalaeth ar ran aelodau'r Priordy, Cana a Bancyfelin i'n Gweinidog dderbyn rhodd o hamper ychydig cyn y Nadolig yn arwydd bach o'n diolch iddi am ofalu amdanom mor ardderchog yn ystod blwyddyn mor anodd ar lawer cyfrif.**

**Alun Charles…**

## YR ARGLWYDD YW FY MUGAIL

***LLYFRYN*** y byddaf yn troi ato o bryd i'w gilydd yw **Salm 23,** sef detholiad o fersiynau Cymraeg y salm nodedig hon.  Golygydd y llyfryn yw **Rhidian Griffiths** ac fe'i cyhoeddwyd gan Gymdeithas Emynau Cymru ym 1991.



Mae'r Golygydd yn ei ragymadrodd yn dweud mai 'Salm y bugail' yw'r fwyaf adnabyddus a'r anwylaf o'r holl salmau ac yn esbonio fel mae beirdd wedi mynd ati i'w fydryddu dros y canrifoedd.  Mae'n debyg i Gymdeithas Emynau Cymru gyhoeddi yn ei Fwletin drigain o fersiynau mydryddol Cymraeg rhwng 1972 i 1986. Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys detholiad yn unig ohonynt ynghyd â rhai na fu yn y Bwletin a rhai fersiynau Beiblaidd. Hawdd dychmygu hefyd fod nifer o fersiynau mydryddol eraill wedi'u cyfansoddi ers cyhoeddi'r llyfryn.

Rhywbeth arall y byddaf yn troi ato, yn fwy aml na'r llyfryn, rhaid cyfaddef, yw pêl-droed ar y teledu!  Profiad ychydig yn wahanol yw hwnnw'r dyddiau hyn gyda'r stadia gwag (er bod nifer cymharol fach o gefnogwyr yn cael dod i rai ohonynt erbyn hyn) a'r effeithiau sŵn yn ceisio gwneud iawn am floeddio arferol y torfeydd. Mae'r diddordeb yn pallu weithiau, yn enwedig pan yw'r gemau braidd yn ddiflas a'r llygaid y ptyd hynny'n crwydro oddi ar y cae chwarae i gyfeiriad yr eisteddleoedd. Mae'r rheiny bron yn wag ran amlaf, ond yn llawn o bob math o wahanol bosteri a baneri lliwgar y dyddiau hyn i geisio gwneud iawn am y gwacter a chreu ychydig o awyrgylch.

Tîm newydd yn Uwch Gynghrair Lloegr y tymor hwn yw West Bromwich Albion neu'r *Baggies* ac enw'r stadiwm ble maen nhw'n chwarae yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr yw'r *Hawthorns.* Dw i wedi gwylio'r *Baggies* yn chwarae nifer o weithiau ond mae'r llygaid yn mynnu troi oddi wrth y gemau ambell dro a sylwi ar un peth yn anad un

peth arall. Yn un o'r eisteddleoedd yn yr *Hawthorns* mewn llythrennau bras hynod o fawr mae'r geiriau *The Lord is my Shepherd!* Roedd hynny'n dipyn o syndod i mi, rhaid dweud, a dyma fynd ati i geisio canfod pam mae'r geiriau yno o gwbl.

Ar Ddydd Sul, 27 Ionawr 1974 roedd West Bromwich Albion yn chwarae yn erbyn Everton yng Nghwpan yr FA ym Mharc Goodison yn Lerpwl. Roedd hi'n anarferol ar y pryd i chwarae gemau ar y Sul a hon yn wir oedd y gệm gyntaf i West Bromwich ei chwarae ar y diwrnod hwnnw. Cafodd y gệm ei symud i'r Sul, mae'n debyg, oherwydd bod anghydfod diwydiannol yng Ngwledydd Prydain ar y pryd. Tua diwedd 1973 roedd argyfwng ynni gan i Aelodau Arabaidd OPEC wrthod anfon olew i'r gwledydd gorllewinol a gefnogodd Israel yn Rhyfel Yom Kipper ym mis Hydref y flwyddyn honno. Dwysawyd yr argyfwng ynni gan Streic y Glöwyr ar ddechrau 1974. A chan fod cyflenwadau'n mynd yn isel newidiodd llawer o glybiau amser dechrau gemau er mwyn osgoi defnyddio llifoleuadau. Dyma pryd y datblygodd y syniad o chwarae ar y Sul. Yn ystod y gệm hon, yn ôl yr hanes, y dechreuodd grŵp o gefnogwyr West Bromwich Albion lafarganu darn o Salm 23 (y pedair llinell gyntaf). Diweddodd y gệm ym Mharc Goodison yn gyfartal (0-0) ac yn yr ailchwarae yn yr *Hawthorns* parhaodd y cefnogwyr i lafarganu'r Salm.

Mae fersiwn anecdotaidd arall yn honni bod grŵp o gefnogwyr wedi dod o hyd i lyfr emynau ar fws ar y ffordd i'r gệm a dechrau canu'r emynau ynddo. *The Lord is my Shepherd* oedd yr un mwyaf poblogaidd ac arhosodd hwnnw yn y cof.





Beth bynnag yw'r tarddiad go iawn, bu canu mawr ar Salm 23 gan gefnogwyr hen ac ifanc fel ei gilydd yn yr *Hawthorns.* Tawelodd pethau ychydig yn yr wythdegau ond dychwelodd y salm i amlygrwydd unwaith eto yn y nawdegau a chaiff ei chanu bellach bob tro mae West Brom yn sgorio – ond dyw hynny ddim yn digwydd yn aml y dyddiau hyn, yn anffodus!

Y salm hon yw'r un fwyaf adnabyddus ohonynt i gyd ac mae'n un o hoff ddarnau'r Beibl. Mae wedi'i defnyddio mewn ffilmiau, yn cynnwys *The Wicker Man, The Elephant Man*, *Titanic* a *War Horse*.

Mae wedi'i recordio gan artistiaid o Pink Floyd i U2 a Jay Z. Ymhlith y Cymry sy'n ei chanu mae Bryn Terfel ac Aled Jones ac Elin Manahan Thomas a llu o amrywiol gorau.

A siarad yn gyffredinol, pwrpas salmau yw mynegi pethau am Dduw ac i Dduw. Maen rhai ohonynt yn addas ar ein cyfer pan ydyn ni'n teimlo ar ben ein digon ac eraill pan ydyn ni, efallai, braidd yn isel. Tra bo rhai salmau'n foliannus a dathliadol eu naws mae eraill yn fwy tawel ac yn fwy addas ar gyfer achlysuron fel angladdau. Ond mae Salm 23 yn addas ar gyfer pob achlysur a phob oes a dyna gyfrinach ei phoblogrwydd, mae'n siŵr. Poblogrwydd sydd hyn yn oed yn cyrraedd stadiwm clwb pêl-droed yn un o gynghreiriau mwyaf y byd yn yr unfed ganrif ar hugain!



***FAINT*** o ganu, os o gwbl, fydd ar y Salm y tymor hwn yn yr *Hawthorns* oherwydd y pandemig, wn i ddim, ond tra bo'r eisteddleoedd yn wag, neu bron yn wag, bydd y geiriau *The Lord is my Shepherd* i'w gweld yn amlwg i'r miliynau sy'n gwylio ar y sgrîn fach. Geiriau sy'n dangos fod yr Arglwydd yn barod i'n hamddiffyn a'n tywys yn ystod y flwyddyn newydd hon fel bob amser - yn union fel y gwna'r bugail gyda'i ddefaid.

***YN DYMUNO CYFAMODI?***

**DENNIS JONES**
**YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI**


**Croeso i chi gysylltu ag e!**



## Dewrder

*Eira nad oes mo'i oerach ddaw o hyd,*
*ond doist ddoe yn wynnach*
*allan i fyd sydd bellach*
*mor ddyrys, fy eirlys fach.*

*Tudur Dylan Jones*



# DYLETSWYDDAU

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Ionawr | | Chwefror | |
|---|---|---|---|
| **Gofalwr** | **Gwresogwr** | **Gofalwr** | **Gwresogwr** |
| Alun Charles | Adrian Evans | Gwynfor Davies | Philip Jones |

## DARLLENWYR

| Ionawr | 3 | Ordfa ddigidol | Chwefror | 7 | Elen Marks |
|---|---|---|---|---|---|
| | 10 | Oedfa ddigidol | | 14 | Gill Owens |
| | 17 | Oedfa ddigidol | | 21 | Dr H Michael |
| | 24 | Miriam Wyrwoll | | 28 | Y Plant |
| | 31 | Huw Jones | | | |

## CYHOEDDWYR

| Ionawr | Catrin H Jones | Chwefror | Elis Jones |
|---|---|---|---|

## DIOLCH

**Derbyniodd ein Gweinidog ffilm drwy Wepryd yn llawn cyfarchion a diolch gan deuluoedd ac aelodau'r Priordy fel arwydd o'u gwerthfawrogiad o'r holl waith a gyflawnodd yn ystod y flwyddyn, yn enwedig yn ystod y cyfnodau clo, ac am ei gofal mawr drosom. Mae'r ffilm yn diweddu gyda'r geiriau hyn o waith Peter Hughes Griffiths sy'n crynhoi'r cyfan mor effeithiol:**

**Beti- Wyn**

**Bu'n flwyddyn llawn gofidiau**
**A phawb fu ar wahân,**
**A chwmni Y Priordy**
**Mor rhyfedd yn ddi-gân.**
**Ond diolch wnawn yn llawen,**
**Os yw y byd yn syn**
**Am gwmni a brawdgarwch**
**Diflino Beti-Wyn.**

# ROTA DARLLENWYR BORE SUL 2021

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 3 | Oedfa Ddigidol | Gorffennaf | 4 | Luned Voyle |
| | 10 | Oedfa Ddigidol | | 11 | Sul y Cyfundeb |
| | 17 | Oedfa Ddigidol | | 18 | Eirlys Jones |
| | 24 | Miriam Wyrwoll | | 25 | Alison Parsons |
| | 31 | Huw Jones | | | |
| Chwefror | 7 | Elen Marks | Awst | 1 | |
| | 14 | Gill Owens | | 8 | |
| | 21 | Dr H Michael | | 15 | |
| *Gŵyl Dewi* | 28 | Y Plant | | 22 | Y Parch Ddr D Davies |
| | | | | 29 | |
| Mawrth | 7 | David Lewis | Medi | 5 | Y Plant |
| *Sul y Mamau* | 14 | Y Mamau | | 12 | Meleri Ll O'Leary |
| | 21 | Elinor W Reynolds | | 19 | Heledd Tomos |
| *Sul y Blodau* | 28 | Y Plant | | 26 | Gŵyl Mawl Medi |
| Ebrill *Y Pasg* | 5 | Carys Morgans | Hydref | 3 | Adrian Evans (Hwyr) |
| | 11 | Peter H Griffiths | | 10 | Elis Jones |
| | 18 | Mari Jenkins | | 17 | Lleucu Edwards |
| | 25 | PIP | | 24 | Sulwyn Thomas |
| Mai | 2 | Sián Axford | Tachwedd | 7 | Y Plant |
| | 9 | Ffion Parsons | | 14 | Wyn Tegryn Evans |
| | 16 | Tim Hayes | | 21 | Glenys Thomas |
| *Pentecost* | 23 | Y Plant | | 28 | Alwen Owen |
| | 30 | Rosan Saunders | | | |
| M\ehefin | 6 | Delyth G Davies | Rhagfyr | 5 | Meinir Jones |
| | 13 | Pererindod | | 12 | Oedfa Nadolig |
| *Sul y Tadau* | 20 | Y Tadau | *Cana* | 19 | Alun Charles |
| | 27 | June Thomas | *Bore Nadolig* | 25 | Y Bobl Ifainc |
| | | | *Bancyfelin* | 26 | Gofalaeth |

**A wnewch chi fwrw golwg dros y rhestr hon, os gwelwch yn dda, a chyfnewid dyddiad gyda pherson arall os nad yw'r Sul yn gyfleus i chi a rhoi gwybod i'n Gweinidog. Llawer o ddiolch**

# Y DDIWEDDAR MAIR BASTON

Yn dawel ar 3 Rhagfyr yn Ysbyty Glangwili bu farw un o ffyddloniaid yr eglwys, Mair Baston. Yn wreiddiol o Ddryslwyn, symudodd i Hafod Cwnin, Caerfyrddin gyda'i diweddar briod Jack, ac yno magwyd eu hunig fab David. Daeth Mair yn rhan annatod o fywyd y gymdogaeth yn Hafod Cwnin gan brofi i fod yn gymydog cymwynasgar tu hwnt. Nid syndod oedd iddi gael ei henwebu gan y cymdogion yn *Halen Y Ddaear* ar raglen *Heno S4C.*

Daeth ergyd fawr i ran y teulu pan gollwyd priod a thad ym mlodau ei ddyddiau, gan adael Mair yn weddw ifanc iawn i fagu David ar ei phen ei hun. Ni adawodd i'r storom gael y gorau arni. Roedd dycnwch a phendantrwydd yn perthyn iddi a bwriodd ati i weithio'n galed iawn drwy ei hoes gan ddal mwy nag un swydd ar adegau yn y sector gofal ynghyd â choginio, godro a glanhau. Bu'n eithriadol o gymwynasgar i nifer o deuluoedd yr eglwys gan gynnwys ein teulu ni.

Roedd Mair wrth ei bodd yn coginio a garddio, a chyda David yn gwmni, bu'r ddau'n byw'n syml ond dedwydd eu byd yn Hafod Cwnin. Rhoddodd Mair o'i gorau bob amser, a gwelsom hynny yn ei ffyddlondeb i Gapel Y Priordy. Bu'n ffyddlon i'r oedfaon, yn mwynhau pererindodau ac yn gyfrifol am drefnu'r blodau yn y capel ar y Sul ac mewn angladdau am flynyddoedd lawer. Hi hefyd, gyda help David, fu'n gyfrifol am barartoi Torch yr Adfent bob Nadolig tan eleni. Fe ffarweliodd â'r byd hwn yn ystod Tymor yr Adfent, a phriodol felly oedd cyfeirio yn ei hangladd at arwyddocâd ystyr y canhwyllau ar y dorch: Llawenydd, Cariad, Tangnefedd a Gobaith - pedwar peth a amgylchynodd Mair trwy gydol ei bywyd, a bu ei bywyd hithau'n gyfrwng i'w trosglwyddo i eraill.

Estynnwn ein cydymdeilad dwysaf â David, gan ddiolch iddo am ei ofal mawr o'i fam ar hyd y blynyddoedd. Cofiwn hefyd am Edryd, ei brawd, a'r neiaint a'r nithod a oedd yn meddwl y byd ohoni. Oherwydd y cyfyngiadau presennol, bu ei hangladd yn Y Priordy ar fore Mawrth 15 Rhagfyr yn un breifat. Rhoddwyd hi i orffwys ym Mynwent y Dref gyda'i diweddar ŵr.

Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth. Diolch amdani.

**Ein Gweinidog**

**DYMUNWN** yn dda ar ddechrau Blwyddyn Newydd i bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn ac yn gaeth i'w haelwydydd ac i Dan Evans ac Eira Jenkins sy wedi bod yn yr ysbyty. Ein cofion cynhesaf atoch i gyd.



Ar **Bwrw Golwg** ar **Radio Cymru** ac ar ddechrau wythnos Dydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Uniedig (10 Rhagfyr) bu Menna Elfyn yn trafod sefyllfa'r bardd Ihan Sami Çomak a chefnogaeth Wales PEN Cymru iddo. Çomak yw'r carcharor o fyfyriwr yn Nhwrci sydd wedi treulio'r mwyaf o amser dan glo. Parhaodd ei achos llys am 22 mlynedd, a chafodd ddedfryd oes am drosedd y mae'n ei gwadu. Unig gwmni İlhan fu aderyn bach, ac mae ganddo bron i bedair blynedd arall dan glo cyn y caiff ei ryddhau ar barôl. Yn ystod ei 27 mlynedd yn y carchar, mae İlhan wedi ysgrifennu a chyhoeddi wyth llyfr o farddoniaeth. Menna Elfyn yw Llywydd **Wales PEN Cymru**, un o'r 145 o ganolfannau PEN mewn dros 100 o wledydd ar draws y byd sy'n ymgyrchu ar ran ysgrifenwyr o bob cwr y byd sy'n cael eu herlid, eu carcharu, eu poenydio neu'n dioddef o ymosodiadau oherwydd eu gwaith ysgrifennu. Mae ymgyrch dan arweiniad PEN Norwy yn canolbwyntio ar ysgrifenwyr sydd dan glo yn Nhwrci ac yn galw am ryddhau Ihan Sami Çomak o garchar Silivri, Istanbul ar unwaith. Mae Menna Elfyn wedi ysgrifennu cerddi iddo a derbyn cerddi'n ôl ganddo mewn ymateb iddynt. Deallwn hefyd fel y mae derbyn llythyron o gefnogaeth yn gwneud byd o wahaniaeth i awduron sy'n wynebu dedfrydau hir yn y carchar, risg uwch i'w hiechyd a chyfyngiadau anghyfiawn ar eu rhyddid prin, yn enwedig yn ystod pandemig COVID-19.

Mae'n bosib bod nifer ohonoch wedi dod ar draws y dudalen **Côr-ona** ar wefan **Facebook**. Fe'i sefydlwyd ar ddechrau'r pandemig a nawr mae bron 50,000 o aelodau i gael lle mae pobl yn cyfrannu eitemau cerddorol er mwyn i eraill gael eu mwynhau. Ar ddechrau Rhagfyr, lansiwyd cystadleuaeth arbennig ar gyfer ysgrifennu carolau newydd sbon. Mae'n dda cael cyhoeddi mai carol Ieuan Wyn a Hanna Hopwood-Griffiths o Langynnwr ddaeth i'r brig yn y categori Carol / Cân Nadoligaidd Fodern. Mae'r ddau yn gymdogion ac wedi mwynhau

gweithio gyda'i gilydd (o bell!). Ysgrifennodd Hanna'r geiriau i *Carol y Clo* a chyfansoddodd Ieuan y gerddoriaeth yn ogystal â pherfformio'r darn. Roedd rhaid cynhyrchu fidio i gyd-fynd â'r gân a hefyd, lle roedd hi'n bosib, weld plant y ddau deulu'n paratoi at y Nadolig. Mae'r garol wedi cael ei chwarae ar **Radio Cymru** ac ar raglenni **Heno** a **Prynhawn Da.** Aeth y garol ben-ben ag enillwyr y tri chategori arall wedyn i weld pa un fyddai'n ennill y teitl Carol Corona.a chyhoeddwyd ar Noswyl Nadolig fod *Carol y Clo* gan Ieuan a Hanna wedi dod i'r brig unwaith eto. Llongyfarchiadau mawr!

Bu **Henry Wilkins** ar **Newyddion 9** ar **S4C** yn cael ei gyfweld ynglŷn ag effaith y posibilrwydd o golli siop fel Debenhams.ar ein tref. Bu Rebeca Hayes yn adolygu'r papurau Sul ar **Raglen Dewi Llwyd ar Fore Sul** ar **Radio Cymru**

Bu Elinor-Wyn yn westai ar **S4C** yn sôn am y gyfrol newydd a olygodd, sef **Llyfr Bach Nadolig.** Cafodd y gyfrol lansiad rhithiol wedi'i drefnu ar y cyd rhwng Barddas a Chymdeithas y Priordy yng nghwmni Elinor-Wyn a Tudur Dylan. Gweler yr adroddiad yn y Papur hwn. Ar ben hynny, bu Elinor Wyn yn adolygu llyfrau ar **Raglen Dewi Llwyd ar Fore Sul** ac yn rhannu rhestr lyfrau ar gyfer y Nadolig gyda Lisa Gwilym ar **Radio Cymru** ac yn cymryd rhan mewn **Stomp Nadolig** drwy **Zoom** gyda'r **Eisteddfod Genedlaethol a Bragdy'r Beirdd.**

Clywyd y Dr Huw Michael ar y **Post Cyntaf** ar **Radio Cymru** yn trafod yr heriau sy'n wynebu Porthladd Mostyn yng Ngogledd Cymru i wireddu'r cynlluniau sydd ar waith i ddatblygu Morlyn yno i gynhyrchu trydan trwy ddefnyddio ynni'r llanw - tebyg i gynllun Morlyn Abertawe ond ar raddfa lai.

Bu Beti-Wyn ar **Prynhawn Da** ar **S4C** yn sôn sut aeth gweinidogion ac offeiriaid ati i ledaenu neges y Nadolig mewn ffordd wahanol yn ystod y pandemig, gan bwyso ar gyfryngau digidol. Dangosodd fel mae'r argyfwng presennol wedi'n gorfodi i fod yn fwy creadigol a mentrus gan enghreifftio rhai digwyddiadau yn ein Gofalaeth ni. Enwyd Beti-Wyn hefyd ar **BBC Cymru Fyw** ymhlith y bobl sydd wedi codi calon yn ystod cyfnod anodd y pandemig. Bu hefyd, gydag Islwyn yr Asyn yn cyflwyno Stori'r Nadolig i blant bach **Cylch Meithrin Eco Tywi** – cylch meithrin di-blastig cyntaf Caerfyrddin sy'n cwrdd yng Nghlwb Pêl-droed y Dre dan ofal Lleucu Edwards**.**

Bu Fflur Dafydd yn cadw cwmni ‘n rhithiol un noson yn stiwdio **Heno** ar **S4C** ac yn sôn am ei chyfrol newydd **Lloerganiadau** – ei llyfr cyntaf yn y Gymraeg ers deng mlynedd - a hefyd ei chyfres deledu gyffrous ddiweddaraf **Yr Amgueddfa** a fydd yn ymddangos ar **S4C** ym mis Mai 2021

Ymhlith y pinaclau yn rhaglen olaf **Dechrau Canu, Dechrau Canmol** am y flwyddyn ar **S4C** oedd y cyfweliadau y soniwyd eisoes amdanynt yn y Papur hwn gyda Heledd a Rhiannon Jones yn Fferm Hengil Fach a gyda Tudur Dylan Jones pan fu Meinir Richards yn trafod ei phrofiadau. Da oedd cael y cyfle i’w gweld uinwaith eto a hefyd y wynebau cyfarwydd yn y canu cynulleidfaol!



Mae’r Dr Llinos Williams ac Aled a’r plant Miriam, Olwen a Gwydion wedi symud tŷ i Ffordd Henfwlch, Caerfyrddin. Pob dymuniad da iddyn nhw ar eu haelwyd newydd.



***I GLOI***, llongyfarchiadau mawr i Mair Lewis ar ddod yn hen fam-gu ac i Enid a Maynard Lewis ar ddod yn fam-gu a thad-cu unwaith eto. Ganed Bleddyn William i Catrin a William Davies a brawd bach i Billie ar 7 Rhagfyr 2020 yn Ysbyty Pen-y-bont ar Ogwr. Pob dymuniad da i’r teulu bach.

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Chwefror i’n Gweinidog neu Alun Charles**

## GAIR O DDIOLCH


**Dymuna Irene Williams (Llangynnwr) ddiolch yn fawr iawn i’r Priordy am yr anrheg Nadolig hyfryd a dderbyniodd yn ddiweddar. Mae hefyd yn hyn o beth yn cynrychioli eraill sydd wedi mynegi’u gwerthfawrogiad yn fawr.**

## CYDYMDEIMLAD

**Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â’r Athro Emeritws Desmond a Nansi Hayes ar golli cefnder Des, sef Gareth Butler yng Nghartref Gofal Peniel ac yn wreiddiol o Dre-lech ar 14 Rhagfyr 2020, yn dilyn cyfnod hir o salwch. Meddyliwn am yr holl gysylltiadau yn eu tristwch a’u hiraeth.**
**Bu’r angladd yng ngofal ein Gweinidog.**



# Y SULIADUR



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 3 | Bore | Oedfa Gymun Ddigidol gyda'n Gweinidog | C |
| | 10 | Bore | Oedfa Ddigidol gyda'n Haelodau | |
| | 17 | Bore | Oedfa Ddigidol gyda'n Gweinidog a'n Haelodau | |
| | 24 | Bore | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog | |
| | 31 | Bore | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Chwefror | 7 | Bore | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog | C |
| | 14 | Bore | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog | |
| | 21 | Bore | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog a'n Haelodau | |
| | 28 | Bore | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog | |

**Oedfa Fyw dros Zoom ar gyfer y sawl sy'n hunanynysu**
**Oedfa Ddigidol hefyd yn hwyrach ymlaen**

**CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC**
Mae cyfle i Blant yr Ysgol Sul a PIP ymuno â'r Oedfa Deulu bob Sul.
Bydd y Calendr yn ymddangos unwaith y bydd yr Ysgol Sul yn ailddechrau.

## DALIER SYLW



**Rhown wybod am unrhyw newidiadau i'r Suliadur mewn da bryd.**






Dymunwn
Flwyddyn Newydd Dda
i bob un ohonoch.

Cymerwch ofal a chadwch
yn ddiogel.

